

# Amgueddfa Caerdydd

## Gweithdai Dysgu Gydol Oes



**DIDDOROL, GRYMUSOL A RHYNGWEITHIOL**

**Amgueddfa Caerdydd**  
Yr Hen Lyfrgell  
Yr Aes  
Caerdydd  
CF10 1BH

Museum of  
**Cardiff**

Amgueddfa  
**Caerdydd**

029 2034 6214  
[storicaerdydd@cardiff.gov.uk](mailto:storicaerdydd@cardiff.gov.uk)  
[AmgueddfaCaerdydd.com](http://AmgueddfaCaerdydd.com)  
[www.facebook.com/cardiffstory](http://www.facebook.com/cardiffstory)  
[@thecardiffstory](https://twitter.com/thecardiffstory)



**Rydyn ni'n amgueddfa sy'n adrodd stori Caerdydd.**

**Rydyn ni'n amgueddfa hanes cymdeithasol sy'n golygu ein bod ni'n defnyddio straeon personol pobl i adrodd hanes Caerdydd.**

## **BETH YDYN NI'N EI WNEUD?**

Gall ymweld ag Amgueddfa Caerdydd gynnig profiad dysgu diddorol, difyr a rhyngweithiol i ddysgwyr o unrhyw oedran.

Mae ein horielau yn edrych ar y newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol ac economaidd sydd wedi digwydd yn y ddinas drwy fywydau ei phobl.

Os ydych chi'n chwilio am weithdy dysgu ar unrhyw beth sy'n ymwneud â Chaerdydd, sut a pham y mae'r ddinas wedi newid a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywydau pobl... cysylltwch â ni nawr!

## **BETH SYDD YN YR ORIELAU?**

Mae Caerdydd Mewn Cyd-destun yn ystyried sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw.

Mae arddangosiadau rhyngweithiol yn rhoi'r cyfle i chi grwydro drwy straeon pobl y ddinas, eu cartrefi, eu bywydau gwaith, yr adeiladau a'r drafnidiaeth a ddefnyddiwyd ganddyn nhw, y dociau, y cymunedau cynharaf a ymgartrefodd yng Nghaerdydd, perthynas Caerdydd â'r cymoedd a Chaerdydd fel dinas fodern.

Mae Lab y Ddinas yn cynnig profiad hyn yn oed yn fwy rhyngweithiol i blant ac oedolion. Mae Den Dewi yn annog dysgwyr yn y cyfnod sylfaen (0-5 oed) i ddysgu drwy wisgo i fyny a chwarae rôl.

Mae'r Gorsafoedd Gweithredu yn annog dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) i ystyried y pynciau siopa, mudo a'r Ail Ryfel Byd.





## DYSGU GYDOL OES

Gall y gweithdai canlynol gael eu haddasu yn unol ag anghenion eich grŵp. Ffoniwch ein Swyddog Dysgu ar **029 2034 6214** neu e-bostiwch

**storicaerdydd@caerdydd.gov.uk.**

Gallwn gynnig rhai o'r gweithdai canlynol oddi ar y safle.

## Hanes Llafar

Amser : 4 awr

Cost : £240 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr : 15

Caiff cyfranogwyr eu cyflwyno i Hanes Llafar gan feithrin dealltwriaeth o - beth yw Hanes Llafar, pam fod pobl yn ei ddefnyddio, trosolwg o'i hanes, arfer gorau mewn perthynas â Hanes Llafar, paratoi ar gyfer cyfweiliad, cynnal cyfweiliad, technegau cyfweld da a drwg a sut i ofyn cwestiynau agored.

Bydd y sesiwn yn dod i ben gyda chyfranogwyr yn cyfweld â'i gilydd neu wirfoddolwyr os oes rhai ar gael.

## Creu arddangosfa

Amser : 4 awr

Cost : £240 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr : 15

Mae hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd cyfranogwyr yn dysgu sut y gwnaethon ni greu Amgueddfa Caerdydd a sut y gallan nhw greu eu harddangosfa eu hunain.

Bydd cyfranogwyr yn edrych ar elfennau gwahanol sy'n gysylltiedig â chreu arddangosfa, adnoddau dehongli, themâu a negeseuon allweddol, dulliau dysgu gwahanol, cynulleidfaoedd a hygyrchedd.



## Stori Caerdydd

Amser : 2 awr

Cost : £120 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr : 15

Ar daith arbennig o'n horielau, byddwn yn darganfod sut y trawsnewidiodd Caerdydd o fod yn dref farchnad fechan yn y 1300au i un o borthladdoedd mwya'r byd yn y 1900au, i'r brifddinas gosmopolitan sydd yma heddiw.

Bydd hefyd yn dysgu sut y gwnaethon ni greu'r amgueddfa, a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Perffaith ar gyfer y rheini sydd am grwydro'r orielau a dysgu mwy am yr amgueddfa.



## Stori Mudo: Cymunedau amrywiol Caerdydd

Amser : 1 awr

Cost : £60 (+TAW)

Uchafswm cyfranogwyr : 15

Dysgwch pam fod pobl o bedwar ban byd wedi heidio i Gaerdydd a'r hyn y maen nhw wedi'i gyfrannu i'r ddinas.



## YMWELIAD HUNAN-DYWYS

Amser a argymhellir: 1.5 – 2 awr

Cost : £1 (+TAW) y dysgwr

Os byddai'n well gennych arwain eich ymweliad eich hun, gallwn roi taflenni gwaith i chi.

Gall ein hystafell Ddysgu fod ar gael am ginio am gost ychwanegol o £10.

Trefnwch ymweliad drwy gysylltu â'n Swyddog Dysgu ar **029 2034 6214** neu e-bostiwch [storicaerdydd@caerdydd.gov.uk](mailto:storicaerdydd@caerdydd.gov.uk)

Museum of  
**Cardiff**

Amgueddfa  
**Caerdydd**

## Y CAM NESAF

Os oes gennych ddi-ddordeb yn unrhyw un o'n gweithdai cysylltwch â'n Swyddog Dysgu ar **02920 346214** neu anfonwch e-bost i [storicaerdydd@caerdydd.gov.uk](mailto:storicaerdydd@caerdydd.gov.uk)